CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher Ebrill 26ain 2017 am 7.30 yh yng Nghanolfan Bro Cernyw

Ymddiheuriadau: Elen Edwards, Einir Williams, Cyng. Dilwyn O Roberts

Presennol: Gwydion Jones (Cadeirydd), Ian W Griffith, Diane Roberts, Ann Vaughan, Ifor Edwards, Emlyn Williams, Gwyn Williams (yn hwyrach) a'r Clerc
Garffild Lloyd Lewis – ymgeisydd i'r Cyngor Sir.

65.1 DATGAN CYSYLLTIAD – mynegodd Ann Vaughan ddiddordeb yn Eitem 7ch) a 7d)

65.2 COFNODION - edrychwyd ar gofnodion cyfarfod 22ain Mawrth 2017 a PHENDERFYNWYD yn unfrydol eu bod yn gofnod cywir.

65.3 MATERION YN CODI O'R COFNODION
BAND EANG – cafwyd gwybodaeth gan Mr Peter Williams, Llywodraeth Cymru ein bod o fewn ardal cysylltiad Ffeibr i'r Cabinet – a'n bod tuag at ddiwedd eu rhaglen sydd yn gorffen y flwyddyn yma.

65.4 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD
65.4.1 Adroddwyd bod angen camfa ar lwybr cyhoeddus ger Tan Ffos a bod giât ar glo yno. Daeth Gwyn Williams i'r cyfarfod.
65.4.2 Pontydd – y Clerc i holi beth oedd cost atgyweirio'r ddwy bont yn yr ardal ac i holi pam fod peiriannau yn sefyll cyhyd yn Hendre Ddu.

65.5 RHEOLIADAU ARIANNOL DIWYGIEDIG – cafwyd cyfarfod o'r is-bwyllgor cyn cyfarfod y Cyngor a PHENDERFYNWYD i anfon copi i bawb gydag Agenda'r cyfarfod nesaf.

65.6 MATERION CYNLLUNIO
65.6.1 Cais Rhif 0/43830 Sied amaethyddol arfaethedig yn lle un arall i'w defnyddio ar gyfer da byw, bwyd anifeiliaid, gwellt a gwair yn Garthmyl, Pentre Isaf, Llangernyw gan Mr Rhys Davies – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
65.6.2 Cais Rhif 0/43853 Tystysgrif cyfreithlondeb ar gyfer lleoliad arfaethedig carafan yn Glog Ddu, Llangernyw gan Mr Anthony Harris – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
65.6.3 Cais Rhif 0/43874 Adeilad amaethyddol arfaethedig i storio bwyd a gwair yn Rhos y Mawn, Llangernyw gan Mr G Williams – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
65.6.4 Cais Rhif 0/43727 Dymchwel a chlirio hen ysgubor dyrnu yn Bryn Gwylan – cais wedi ei dynnu yn ôl
65.6.5 Cais Rhif 0/43909 Dymchwel a chlirio hen ysgubor dyrnu rhestredig Gradd II yn Bryn Gwylan, Llangernyw gan Mr Idwal Vaughan – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
65.6.6 Cofnodion Panel Ymgynghorol Ardal Gadwraeth – derbyniwyd gopi o gyfarfod diweddar.
65.6.7 Harlequin Cottage, Llangernyw – derbyniwyd llythyr gan yr Adran Cynllunio yn nodi eu bod wedi cysylltu â'r perchennog ynglyn â'r porch a'r ffens. PENDERFYNWYD ein bod am gadw golwg ar y lle.

65.7 ADRODDIAD O'R PWYLLGOR MYNWENTYDD – rhoddodd y Clerc adroddiad o gyfarfod diweddar. Daeth tri phris i law a phenderfynwyd derbyn pris Mr Dei Evans o £380 y toriad am eleni a £400 y toriad y flwyddyn nesaf. Costau claddu – penderfynwyd eu codi £10 yr un. Mynwent Seilo – angen gweld lle rydym arni yn gyfreithiol ynglyn â'i thorri. Mynwent Gwytherin – angen gofyn i'r Cyngor am ganiatad i fynd at gyfreithwir er mwyn cofrestru'r fynwent. PENDERFYNWYD yn unfrydol i roi caniatâd. Mynwent Llangernyw – angen mynd i weld be sy angen ei wneud yno a gofynnir am ganiatad i symud cerrig ger yr afon a chael gwared o dyfiant ar y wal. PENDERFYNWYD gofyn i Kevin Roberts am bris i wneud hyn. Derbyniwyd yr adroddiad.

65.8 GOFAL CARTREF CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY – derbyniwyd ateb i'n pryder gan Mr Vaughan Gething, Llywodraeth Cymru a chan Reolwr Gwasanaethau Tim Pobl Hŷn Cyngor Conwy. PENDERFYNWYD i anfon copi o'r llythyr ar ebost at yr aelodau a chodi'r mater eto yn y cyfarfod nesaf.

65.9 CAU CANGEN HSBC LLANRWST – PENDERFYNWYD i ysgrifennu at HSBC i ddatgan ein siom ac i gwyno am eu bwriad i gau'r gangen brysur hon. Bu Emlyn Williams, Gwynfor Davies a'r Clerc yn y Banc yn nol amlenni oedd dan sêl yno h.y. gweithredoedd y mynwentydd a chofnod tir comin. PENDERFYNWYD i ofyn i gyfreithiwr a gaem gadw'r dogfennau yn eu swyddfa yn Llanrwst.

65.10 LLYTHYR GAN SWYDDOG IECHYD Y CYHOEDD – derbyniwyd llythyr uniaith Saesneg yn gofyn am gyfraniad gan y Cyngor at 'Keep it Clean – No Messing Campaign'. PENDERFYNWYD yn unfrydol ein bod yn talu am hyn yn ein trethi ac nad oeddem yn awyddus i gyfrannu mwy.

65.11 CYNIGION I GYFARFOD BLYNYDDOL UN LLAIS – PENDERFYNWYD i roi cynnig ynglŷn a 'gofal i bobl yng nghefn gwlad' i'r Cyfarfod Blynyddol.

65.12 GOHEBIAETH – y Clerc i anfon llythyrau ar ebost i'r aelodau.

65.13 LLYTHYR DIOLCH GAN Y CYNGHORYDD DILWYN O ROBERTS – derbyniwyd llythyr o ddiolch i'r cynghorwyr a swyddogion y cynghorau cymuned a dymuno'n dda i'r dyfodol. PENDERFYNWYD i gofnodi ein diolch ninnau i'r Cynghorydd Dilwyn Roberts am ei waith i'r Cyngor.

65.14 YSWIRIANT Y CYNGOR – Penderfynwyd i holi am fwy nag un pris.

65.15 MATERION LLEOL
65.15.1 Ceir yn parcio ar linellau melyn ger y Stag.
65.15.2 Diolchodd Ifor Edwards am y cyfle i fod am y Cyngor Cymuned a diolchwyd iddo yntau am ei waith.
65.15.3 Un o dai Cartrefi Conwy yng Ngwytherin ar werth – y Clerc i holi Cartrefi Conwy am hyn.
65.15.4 Wal y bont ger Tafarn y Bont wedi ei difrodi.
65.15.5 Beiciau modur yn gor-yrru drwy Llangernyw a phlant ifanc yn croesi'r ffordd gydag beiciau. Angen arwyddion 20 mya ger yr ysgol.
65.15.6 Nid oes heddwas wedi bod mewn cyfarfod ers talwm.
65.15.7 Pasiwyd i ofyn i'r Clwb Garddio lenwi'r tybiau blodau eto.
65.15.8 Angen holi Cyngor Conwy os byddant yn llenwi eu tybiau blodau nhw.

65.15.9 Dwy ffos ger Nant Mawr wedi tagu.
65.15.10 Angen holi Conwy lle mae'r arwydd toiledau a'r arwyddion brown.
65.15.11 Bu Ian Griffith i olwg blwch ffôn Llangernyw.
65.15.12 Diolchodd Ian Griffith am gyfeillgarwch y cynghorwyr a dywedodd ei bod wedi bod yn fraint a phleser bod ar y Cyngor Cymuned a diolchwyd iddo ef am ei gyfraniad.

65.16 BILIAU

Y Gadlas (hysbyseb Clerc a Thorri Mynwentydd)	£20
Y Pentan (hysbyseb Clerc)	£20
Cyflog a Chostau Clerc	£902.24
Cyllid y Wlad (TWE)	£6.20
Canolfan Gwytherin (Hurio)	£56
Iona Edwards (Cyflog Clerc)	£60
Dei Evans (Toriad Cyntaf Mynwentydd)	£380
J K & E Roberts (gosod camfa)	£138

Daeth y cyfarfod i ben am 9.25 yr hwyr.

Cymeradwwyd y Cofnodion ..G A Jones..... Dyddiad ..22/5/17.....

Community Council Meeting was held on Wednesday 26th April 2017 at 7.30 pm at Canolfan Bro Cernyw

Apologies: Elen Edwards, Einir Williams, Cllr. Dilwyn O Roberts

Present: Gwydion Jones (Chair), Ian W Griffith, Diane Roberts, Ann Vaughan, Ifor Edwards, Emlyn Williams, Gwyn Williams (later) and Clerk
Garffild Lloyd Lewis - candidate for the County Council.

65.1 DECLARATION - Ann Vaughan expressed interest in Item 7ch) and 7d)

65.2 MINUTES – minutes of 22 March 2017 were read and RESOLVED unanimously that they are an accurate record.

65.3 MATTERS ARISING
BROADBAND - information was received by Mr Peter Williams, the Welsh Government that within Fibre connection area to the Cabinet - and towards the end of their program which ends this year.

65.4 ROADS AND ENVIRONMENT MATTERS
65.4.1 It was reported that a stile on a public footpath near Tan Ffos needed attention and the gate was locked.
Gwyn Williams came to the meeting.
65.4.2 Bridges - the Clerk to inquire what was the cost of repairing the two bridges in the area and to ask why the machinery stood so long at Hendre Ddu.

65.5 REVISED FINANCIAL REGULATIONS - there was a meeting of the subcommittee before the Council meeting and RESOLVED to send a copy to everyone with the next Agenda.

65.6 PLANNING ISSUES
65.6.1 Application No. 0/43830 proposed agricultural shed a replacement to be used for livestock feed, straw and hay in Garthmyl, Pentre Isaf, Llangernyw by Mr Rhys Davies - RESOLVED unanimously to support the application.
65.6.2 Application No. 0/43853 Certificate of lawfulness for proposed placement caravan at Glog Ddu, Llangernyw by Mr Anthony Harris - RESOLVED unanimously to support the application.
65.6.3 Application No. 0/43874 Proposed agricultural building to store food and grass at Rhos Mawn, Llangernyw by Mr G Williams - RESOLVED unanimously to support the application.
65.6.4 Application No. 0/43727 Demolition and clearing old threshing barn at Bryn Gwylan - application withdrawn
65.6.5 Application No. 0/43909 Demolition and clearance threshing barn old Grade II listed at Bryn Gwylan, Llangernyw by Mr Idwal Vaughan - RESOLVED unanimously to support the application.
65.6.6 Minutes of Conservation Area Advisory Panel - received a copy of a recent meeting.
65.6.7 Harlequin Cottage, Llangernyw - received a letter from the Department of Planning indicating that they have contacted the owner about the porch and the fence. RESOLVED that we want to keep an eye on the development.

65.7 REPORT OF THE COMMITTEE CEMETERY - the Clerk gave a report of a recent meeting. Three tenders were received and resolved to accept the price of Mr D Evans of £380 per cut for this year and £400 per cut next year. Burial costs - decided to raise £10 on each. Seilo Cemetery - to see where we are by law in respect of cutting the cemetery. Gwytherin cemetery - need to ask the Council for permission to go to a solicotr to register the cemetery. RESOLVED unanimously to grant permission. Llangernyw cemetery - need to see what needs to be done there and asked for permission to remove stones near the river and removal of vegetation on the wall. RESOLVED to ask Kevin Roberts for a price to do so. The report was accepted.

65.8 CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL HOMECARE - accepted a reply to our concern by Mr. Vaughan Gething, the Welsh Government and by the Older People Services Manager Team Conwy Council. RESOLVED to forward the letter by email to members and raise the matter again at the next meeting.

65.9 HSBC LLANRWST BRANCH CLOSURE - RESOLVED to write to express our dismay and to complain about their proposed closure of this busy branch. Cllrs Emlyn Williams, Gwynfor Davies and the Clerk attended the Bank to collect sealed envelopes ie deeds of the cemeteries and registers of common land. RESOLVED to ask a solicitor could we keep the documents in their office in Llanrwst.

65.10 LETTER FROM PUBLIC HEALTH OFFICER - received English-only letter asking for a contribution by the Council to 'Keep it Clean - No Messing Campaign. RESOLVED unanimously that we pay our taxes for this and we did not want to contribute more.

65.11 PROPOSALS TO THE ANNUAL MEETING OF ONE VOICE WALES - RESOLVED to send a proposal re homecare in rural areas.

65.12 CORRESPONDENCE - the Clerk to send letters via email to members.

65.13 LETTER OF THANKS FROM COUNCILOR DILWYN ROBERTS - received a letter of thanks to the members and officers of the community councils and best wishes for the future. RESOLVED to record our thanks to Councilor Dilwyn Roberts forhis work for the Council.

65.14 COUNCIL INSURANCE - resolved to ask for more than one price.

65.15 LOCAL ISSUES
65.15.1 Parking on yellow lines near the Stag.
65.15.2 Ifor Edwards thanked for the opportunity to be on the Community Council and he was thanked for his work.
65.15.3 A Cartrefi Conwy house for sale in Gwytherin - the Clerk to inquire about this with Cartrefi Conwy.
65.15.4 Wall of bridge near Bridge Inn is damaged.
65.15.5 Motorcycles speeding through Llangernyw and young children crossing the road with bicycles. 20mph signs are needed near the school.
65.15.6 We have not had a visit by a policeman in the council for a long time ago.
65.15.7 Passed to request the Garden Club to fill the flower tubs again.
65.15.8 Need to ask Conwy Council if they are filling their planters this year.
65.15.9 Two blocked ditches near Nant Mawr.
65.15.10 Need to ask Conwy where the toilets and brown signs are.
65.15.11 Ian Griffith had a look at Llangernyw telephone box.
65.15.12 Ian Griffith thanked the councilors for their friendship and said it was a privilege and pleasure to have been on the Community Council and he was thanked for his contribution.

65.16 BILLS

The Gadlas (Clerk and Grass Cutting adverts)	£ 20
Y Pentan (Clerk advertisement)	£ 20
Admin costs	£ 902.24
Inland Revenue (PAYE)	£ 6.20
Gwytherin Centre (Hire)	£ 56
Iona Edwards (Clerk Wages)	£ 60
Dei Evans (First Cut to Cemeteries)	£ 380
J K & E Roberts (installing stiles)	£ 138

The meeting ended at 9:25 pm.

Approved the Minutes G A Jones..... .... Date ...22/5/17.....